LLWYDDO'N LLEOL

YN RHOI HWB I GYFLEOEDD GWAITH POBOL IFANC

LLWYDDO'N LLEOL 2050

ENW: Tesni Hughes

LLEOLIAD: Bangor a Chaernarfon, Gwynedd

Y SWYDD: Tiwtor offerynnau pres - Codi'r To

BETH YDY DY GEFNDIR?

Dwy flynedd yn ôl, roedd gen i gynlluniau i fynd i'r brifysgol i astudio drama drwy gyfrwng y Gymraeg, ond yn anffodus cafodd y cwrs ei ganslo, felly nes i orfod ail feddwl fy ngham nesaf a be oeddwn i eisiau gwneud efo fy mywyd. Dwi *wastad* wedi mwynhau cerddoriaeth a pherfformio, mi wnes i astudio Cerdd a Drama fel Lefel A, dwi'n sgwennu caneuon gwreiddiol yn Gymraeg ac yn *gigio* ar draws Cymru.

BETH FUES TI'N EI WNEUD?

Dwi'n gweithio fel tiwtor cerddoriaeth, ac yn gwneud hyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Drwy'r elfen Gyrfaol, mae Llwyddo'n Lleol wedi helpu i gyflogi fi i fod yn rhan o brosiect, Codi'r To, cynllun sy'n adfywio cymunedol drwy'r dull *El Sistema*. Cynllun addysg ydy *El Sistema,* sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol mewn plant drwy'r defnydd o gerddoriaeth. Fy rôl i yw hwyluso sesiynau cerddoriaeth i blant ac annog nhw i gario 'mlaen efo cerddoriaeth. Yn benodol, dwi'n gweithio efo Ysgol Maesincla, Caernarfon ac Ysgol Glancegin, Bangor.

Yn ystod y flwyddyn ddiwetha', nes i gael mynd i Gothenburg, Sweden efo rhai o'r disgyblion i ddigwyddiad o'r enw Side by Side, sef cynhadledd gerddorol ryngwladol, lle mae 2000 o blant yn cymryd rhan mewn cerddorfa. Yno ges i'r cyfle i *diwtora'r* lower bras section, a fy rôl i oedd sicrhau bod pob dim yn rhedeg yn esmwyth.
Yn ogystal â'r uchod, dwi wedi gallu bod yn rhan o sawl cynllun sy'n ymwneud gyda Llwyddo'n Lleol, er enghraifft Theatr Ieuenctid Môn, Sbarc, Mwydro, Creu Heulwen Caergybi, a pherfformio mewn gigs lleol.

PA EFFAITH MAE HYN WEDI'I GAEL?

Mae Llwyddo'n Lleol wedi rhoi hyder i fi i wthio fy hun allan o'r *comfort zone*. Mae'r gefnogaeth wedi bod yn help mawr ac yn fuddiol iawn i fi fel person ifanc sydd dal *isio* byw adra.

Yn y dyfodol, dwi'n gobeithio gallaf barhau i weithio gyda Codi'r To, datblygu fy sgiliau fel cerddor yn ogystal â magu mwy o hyder i fod yn diwtor cerdd (ac efallai dysgu mwy o offerynnau hefyd!).

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government